ATODLEN

## DOSBARTHIADAU O BEIRIANNAU A PHEIRIANWAITH Y TYBIR EU BOD YN RHAN O'R HEREDITAMENT

## TABL 2

### RHESTR ATEGOLION

**2.** Unrhyw rai o'r peiriannau a'r peirianwaith canlynol a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio yn bennaf neu yn unig fel rhan o unrhyw beiriannau a pheirianwaith sydd o fewn Dosbarth 1 neu Ddosbarth 2 neu mewn cysylltiad â hwy neu fel atogolyn iddynt —

(i) sylfeini, gosodiadau, nenbontydd, cynheiliaid, platfformau a llwyfannau ar gyfer peiriannau a pheirianwaith;

(ii) peiriannau cyddwyso stêm, cywasgwyr, dihysbyddwyr, silindrau a llestri storio, ffaniau, pympiau ac alldaflwyr, cyfarpar trin lludw;

(iii) teithwyr a chraeniau;

(iv) systemau iro; systemau daearu; systemau oeri;

(v) pibellau, dwythellau, falfiau, trapiau, gwahanwyr, hidlwyr, oeryddion, sgriniau, cyfarpar puro a thriniaethau eraill, anweddyddion, tanciau, blychau gwacáu a thawelyddion, wasieri, sgwrwyr, cyddwysyddion, twymyddion aer a dirlenwyr aer;

(vi) beltiau, rhaffau, cadwyni a chynheiliaid ar gyfer echelydd;

(vii) ceblau, dargludyddion, gwifrau, pibelli, tiwbiau, cwndidau, casinau, polion, cynheiliaid, ynysyddion, blychau cyswllt a blychau terfyn;

(viii) offer a chyfarpar sydd ynghlwm wrth y peiriannau a'r peirianwaith, gan gynnwys cyfrifiaduron, mesuryddion, medryddion, offer mesur a chofnodi, rheolyddion awtomatig neu reolyddion wedi'u rhaglennu, dangosyddion tymheredd, larymau a relaiau.